CIC 37

Datganiadau wrth drosi i Gwmni Buddiant Cymunedol[1]

Cwblhewch mewn teipysgrif neu mewn llythrennau du eglur.	***Rhif y cwmni***	
	Enw llawn y cwmni	
	Enw llawn y cwmni arfaethedig	
		Cwmni Buddiant Cymunedol

ADRAN A: DATGANIAD BUDDIANT CYMUNEDOL – buddiolwyr

1. Yr wyf fi/yr ydym ni, sydd â'm henw/â'n henwau isod, yn datgan y bydd y cwmni'n dilyn ei weithgareddau er lles y gymuned, neu ran o'r gymuned.[2] [Rhowch ddisgrifiad byr o'r gymuned, neu'r rhan o gymuned, y bwriedir i'r cwmni fod o les iddi, yn y bwlch isod][3]

Bydd gweithgareddau'r cwmni o les i…

RHIF Y CWMNI

ADRAN B: Datganiad Buddiant Cymunedol – Gweithgareddau a'u Lles Cysylltiedig

Dangoswch sut yr arfaethir i weithgareddau'r cwmni fod o les i'r gymuned, neu i ran o gymuned. Rhowch gymaint o fanylion ag sydd modd fel y gall y Rheoleiddiwr wneud penderfyniad cytbwys priodol o ran cymhwyster eich cwmni i fod yn gwmni buddiant cymunedol. Byddai o gymorth pe gallech egluro sut y teimlwch y bydd eich cwmni'n wahanol i gwmni masnachol sy'n rhoi gwasanaethau tebyg neu'n creu cynhyrchion er mwyn elw unigol neu bersonol.

Gweithgarwch (Dywedwch wrthym yma beth y caiff y cwmni ei sefydlu i'w wneud)	**Sut bydd y gweithgarwch o les i'r gymuned?** *(Bydd y gymuned yn cael lles drwy…)*

	Os gwnaiff y cwmni unrhyw warged, caiff honno ei defnyddio i...
	(Ewch ymlaen ar ddalen ar wahân os bydd angen.)

RHIF Y CWMNI	

ADRAN C: Datganiadau wrth drosi i gwmni buddiant cymunedol

Dilëwch naill ai DATGANIAD 1A neu DDATGANIAD 1B isod

Datganiad 1A.
Datganaf/datganwn:

(i) nad yw'r cwmni yn elusen (yn unol â diffiniad Deddf Elusennau 1993) nac yn elusen Albanaidd nac yn elusen yng Ngogledd Iwerddon (yn unol â diffiniad adran 63(1) o Ddeddf Cwmnïau (Archwilio Ariannol, Ymchwiliadau a Menter Gymunedol) 2004 **("y Ddeddf")**

Datganiad 1B.
Datganaf/datganwn ymhellach:

(i) fod y Comisiwn Elusennau neu Reoleiddiwr Elusennau'r Alban wedi rhoi i'r cwmni gennad ysgrifenedig i fod yn gwmni buddiant cymunedol

Datganiad 2.
Yr wyf fi/yr ydym ni, sydd â'm henw/â'n henwau isod, yn datgan na fydd y cwmni y gwneir y cais hwn yn ei gyswllt:

(a) yn blaid wleidyddol;
(b) yn gorff ymgyrchu gwleidyddol; nac
(c) yn isgorff i blaid wleidyddol neu gorff ymgyrchu gwleidyddol

ADRAN C: LLOFNODWYR

Rhaid i <u>bawb</u> fydd ymhlith cyfarwyddwyr cynta'r cwmni lofnodi'r datganiadau.

Llofnodwyd		Dyddiad	
Llofnodwyd		Dyddiad	
Llofnodwyd		Dyddiad	
Llofnodwyd		Dyddiad	
Llofnodwyd		Dyddiad	

(Ewch ymlaen ar ddalen ar wahân os bydd angen.)

RHESTR WIRIO

Rhaid cyflwyno gyda'r ffurflen hon y dogfennau canlynol:

(a) Penderfyniad arbennig yn datgan y dylai'r cwmni ddod yn gwmni buddiant cymunedol
(b) Penderfyniad arbennig i ddiwygio erthyglau'r cwmni fel y dywedant mai cwmni buddiant cymunedol y mae i fod
(c) Penderfyniad arbennig i wneud y diwygiadau hynny i erthyglau'r cwmni a wêl y cwmni'n angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion adran 32 o'r Ddeddf a Rhan 3 o'r Rheoliadau, neu sydd fel arall yn gymwys yng nghyswllt dod yn gwmni buddiant cymunedol
(d) Penderfyniad arbennig i newid enw'r cwmni i gydymffurfio ag adran 33 o'r Ddeddf
(e) Ffurflen NM01 - Hysbysiad newid enw
(f) Copi argraffedig o erthyglau'r cwmni fel y cawsant eu diwygio drwy'r penderfyniadau arbennig
(g) Unrhyw ddalennau parhad wedi eu cwblhau
(h) Siec am £25 wedi ei gwneud yn daladwy i "Tŷ'r Cwmnïau"

Does dim rhaid ichi roi gwybodaeth gyswllt yn y blwch gyferbyn, ond os gwnewch, bydd hynny o gymorth i'r Cofrestrydd Cwmnïau gysylltu â chi os bydd ymholiad ynglŷn â'r ffurflen. Bydd yr wybodaeth gyswllt a roddwch yn weladwy i rai sy'n chwilio'r cofnod cyhoeddus.

	Ffôn
Rhif DX	Cyfnewidfa DX

Wedi cwblhau a llofnodi'r ffurflen, anfonwch hi at y Cofrestrydd Cwmnïau:
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ DX 33050 Caerdydd
ar gyfer cwmnïau wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr

Companies House,4th Floor, Edinburgh Quay 2, 139 Fountainbridge, EH3 9FF DX235 Edinburgh
ar gyfer cwmnïau wedi eu cofrestru yn yr Alban

Companies House, 2nd Floor, The Linenhall, 32-38 Linenhall Street, Belfast, BT2 8BG

NODIADAU

1. Caiff y ffurflen hon ei rhoi ar y cofnod cyhoeddus. Dylai unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais ond nad ydych am iddi ymddangos ar y cofnod cyhoeddus, gael ei disgrifio mewn llythyr ar wahân wedi ei gyfeirio at y Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol a'i gyflwyno i'r Cofrestrydd Cwmnïau gyda'r dogfennau eraill.

2. Cyfeirir at y prawf buddiant cymunedol yn adran 35 o Ddeddf Cwmnïau (Archwilio Ariannol, Ymchwiliadau a Menter Gymunedol) 2004 ac ymhelaethir arno yn rheoliadau 3, 4 a 5 o'r Rheoliadau.

3. E. e. “trigolion Hendref” neu “rhai’n dioddef gan glefyd XYZ”.

4. Ni chaiff cwmni buddiant cymunedol fanteisio ar statws elusennol Rhaid i gwmni presennol sydd am droi’n gwmni buddiant cymunedol, naill ai peidio â bod â statws elusennol (os felly, dileer datganiad 1B) neu fodloni meini prawf paragraff 2B (os felly, dileer datganiad 1A).

5. Cwmni elusennol Albanaidd yw un sy’n elusen yn yr Alban. Mae elusen Albanaidd yn gorff sydd wedi ei gynnwys yng Nghofrestr Elusennau’r Alban, a gaiff ei chadw gan Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau’r Alban o dan Ddeddf Elusennau a Buddsoddiad Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005.

6. Mae elusennau Gogledd Iwerddon yn gwmnïau elusennol sy’n perthyn i Ogledd Iwerddon. Mae elusen yng Ngogledd Iwerddon yn gorff sydd wedi gwneud cais i Gyllid y Wlad ac y caniatwyd iddo statws elusennol at ddibenion y dreth.

7. Ni chaiff elusennau Gogledd Iwerddon ddod yn gwmnïau buddiant cymunedol ar hyn o bryd (er bod disgwyl i hyn newid). Mae angen caniatâd y Comisiwn Elusennau (neu Reoleiddiwr Elusennau’r Alban) cyn y gall cwmni elusennol sy’n elusen o dan gyfraith Cymru a Lloegr newid ei enw i ddod yn gwmni buddiant cymunedol.

8. Nid yw cwmni’n gymwys i ymffurfio’n gwmni buddiant cymunedol os yw’n “gwmni eithriedig”. Os nad ydych yn siŵr a yw’ch cwmni yn perthyn i unrhyw un o’r categorïau hyn, dylech gyfeirio at y diffiniadau o’r termau “plaid wleidyddol”, “corff ymgyrchu gwleidyddol” ac “isgorff” (ac o’r termau cysylltiedig “etholiad”, “awdurdod llywodraeth”, “awdurdod cyhoeddus” a “refferendwm”) yn Rheoliad 2 o’r Rheoliadau cyn llenwi’r ffurflen hon.